5.192

# CYRAU GLANNAU CERI

### GAN "GLANCERI," CAERDYDD.

Mi es ryw ddiwrnod hirddydd haf
I rodio glannau'r Ceri,
Tra melyn haul yn t'wynu'n braf,
A'r wlad yn llawn o dlysni.

Ar hyd y llwybrau dan y coed
Canlynais gwrs yr afon;
Nid tecach bu y wlad erioed,
Nid llawnach bu fy nghalon.

Holl goed y maes yn gwisgo'u dail,
Yr adar mwyn yn moli,
Y wlad i gyd dan gnwd di-ail,
A'r blodau'n perarogli.

Yn uno a'r tarianaidd li'
Mae croew, claer aberoedd,
A phle mae pysg sydd uwch eu bri
Na'r brithyll sy'n ei dyfroedd?

Bum ar ei glannau lawer gwaith
Yn taflu pluen iddi,
Ond ofer fu fy mhluen fraith
I ddenu'r pysgod heini.

Mor dda oedd cyfarch ar fy nhaith
Y llanciau cryfion, rhadlon,
Yn cludo ffrwyth y meusydd maith
Yn ddifyr, fwyn gymdeithion.

A phrydferth oedd y merched llon,
Fel heulwen haf yn gwenu,
Mewn gwisg drwsiadus oll o'r bron
Yn troi y gwair i fyny.

Nid oes eu harddach yn un man
Na merched glannau'r Ceri,
Sy'n denu llanciau tref a llan
I rodio dan y deri.

Adwaenais un flynyddau'n ol,
Pan oedd y gwaed yn gynes,
Mor fwyn a'r oenig ar y ddôl,
Mor deg a'r un angyles.

Y plant chwareuent yn y gwair—
Pob un mor iach a hapus;
'Doedd neb am wahardd ag un gair
Eu pranciau bach direidus.

Tra'n aros yn eu plith am awr
Yn nghanol y prydferthwch,
Yr oedd fel Eden ar y llawr—
Mor bur oedd ein dedwyddwch.

Mae'r afon rhwng y dolydd mwyn,
Mi dybiaf, yn arafu,
Fel wedi'i hudo gan eu swyn,
Ac yno am artrefu.

Tra'n llifo dros y cerig mân
A chrwydro rhwng y dolydd,
Mae'n murmur cân o foliant glân
Fod yma fan mor ddedwydd.

Pan ddaw y gwanwyn yn ei dro
I erlid gauaf creulon,
Adseinia'r newydd drwy y fro—
"Bydd yma haf yn union."

Fan yma mae yr hydref mwyn
Mewn lliwiau cain prydferthaf,
Yn gwenu ar bob pant a thwyn
I gadw draw y gauaf.

Daw adar fyrdd y gwanwyn gwyrdd
I ganu yma'n gyntaf,
Ac ar brydnawn yr hydref llawn
Bydd yma'u cyngherdd olaf.

Pa ryfedd fod y dyffryn mwyn
Yn magu gwir enwogion,
Tra maes a llwyn yn llawn o swyn
I'w ferched ac i'w feibion?

Fan draw, o dan lwyfanen fawr
Sy'n codi difyr adgo',
Bu cartref yr englynwr mawr,
Yr enwog Ioan Cunllo.

Condemniodd mewn cynghanedd gref
"Greulondeb cweryl India,"
A chanodd pan ar drothwy'r nef
Ei ddwys "Englynion ola'."

Ac yno, fel rhyw seren dêr,
Bu'r llenor hoff Rhys Dyfed,
Yn gwau caniadau tlysion, pêr,
Tra'n suddo dan hir ludded.

Ar ben y bryn fe saif Twr Gwyn,
Y sanctaidd, gain addoldy,
Lle bu y tadau'n gwrando'n syn
"Morrisiaid mawr yr Iesu."

Bu'r ddau yn tanio gwlad a thref
A'u cynes ddoniau nerthol,
Cyn esgyn fry i'r euraidd nef—
Cartrefle'r gân dragwyddol.

I'r Gareg Wen af ar fy nhaith,
Yn llaw fy nwyfus awen,
Lle bu'n cartrefu flwyddi maith
Hiliogaeth "y ddau Eben."

Fan draw, yn ffyddlon was i Dduw,
Bu'r hynaws Griffiths, Hawen,
Yn dysgu'r praidd pa fodd i fyw
Mewn gorthrymderau'n llawen.

Yn ymyl cwyd annedd-dy mad,
Sef cartre'r ffraeth John Daniel—
Arwerthwr penaf yr holl wlad,—
'Nawr dan y gwys yn dawel.

Oddiar y coedydd godant fry
Gerllaw amaethdy Moylon,
Bu O. R. Owen—cenad cu—
Yn seinio'r da newyddion.

I'r hen ysgoldy rhoddaf dro,
Yn llawn adgofion mwynaf,
Lle gynt bu llu o blant y fro
Yn tyru haf a gauaf.

O dan ei do ni chlywir 'nawr
Sain plant yn dysgu gwersi,
Ond trwst dibaid ergydion mawr
Rhyw nerthol, siriol seiri.

Ac er nad yw eu lleisiau pêr
Yn lloni'r hen chwareufan,
Mae rhai mewn hwyl yn canmol Nêr
Ar lethrau Bryniau Canaan.

Mae yntau hefyd wedi mynd—
I'r ysgol fu'n drysorydd;
Mae cadair wag caredig ffrynd
Ar aelwyd lân y Glenydd.

Gerllaw mae'r hen lythyrdy mad;
O hwn, am faith flynyddau,
Bu Powell hoff yn llywio'r wlad
Cyn huno gyda'i dadau.

Fy awen! aros ar dy hynt
Tra dychwel, fel pêr freuddwyd,
Y melus oriau dedwydd gynt
Ges yma ar ei aelwyd.

Daw "Beirdd Cwmdu" yn fyw i'r cof,
Y llenor llawn, "Gwynionydd,"
A'r bardd-bregethwr "James y Gof"—
Dadganwr pena'r broydd.

"Yn gwrando arnaf lawer awr,"
Murmura'r Ceri wrthym,
"Bu 'Emlyn bach'—y cerddor mawr,
A'r prif-fardd 'D. ap Gwilym.'"

O lanau tlysion Ceri fad
Aeth milwyr ffyddlon Iesu,
Sydd heddyw'n mlaenaf rheng y gad,
A'u henwau ym mhob teulu.

"Fe fegir glewion ym mhob gwlad"
Dan nawdd y Nef a'i bendith,
A hir bo glannau'r Ceri fad
Yn gartref i athrylith.

* * * * * *

Prydferthach man nid oes trwy'r broydd,
O Hafren deg hyd Fôr y Werydd,
Er chwilio Cymru wen i ddewis,
Na'r pant-le cain o gylch Rhydlewis.

Yn niwedd oes, cyn daw noswylio,
Ar hyd ei llwybrau hoffwn rodio,
Tan gysgod clyd llydanfrig dderi,
I lunio cân ar lannau Ceri.

*Ail-argraffwyd o'r "Cardigan & Tivy-Side Advertiser," Mai 7fed, 1915.*